Archwilio Cymru
Audit Wales

**Cyfeirnod:** 4529A2024

**Dyddiad cyhoeddi:** Hydref 2024

# Archwiliad o Asesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o Berfformiad 2022-23

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o'i berfformiad yn 2022-23, a hynny yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i fy archwiliad, rwyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

Dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad yn flynyddol sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu i'w hun;
- cyfeirio at ddangosyddion perfformiad sydd wedi'u nodi gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad sydd wedi'u pennu gan yr Awdurdod ei hun; a
- chyflawni unrhyw safonau perfformiad sydd wedi'u nodi gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad wedi'u pennu gan yr Awdurdod ei hun.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall a allai gael ei bennu trwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau wedi'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru, wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol dan adrannau 17 ac 19 y Mesur i mi gynnal archwiliad er mwyn penderfynu a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, i ardystio fy mod i wedi gwneud hynny ac adrodd ynghylch a wyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â'r gofynion statudol sydd wedi'u nodi yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, os yw awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw’n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch pa mor gyflawn neu gywir yw’r wybodaeth. Mae’n bosibl y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ymgymryd ag ef o dan adran 18 y Mesur yn ystyried y materion hynny. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad o berfformiad yr Awdurdod yn cynnwys adolygu cyhoeddiad yr Awdurdod er mwyn gweld a oedd yn cynnwys yr elfennau sydd wedi’u pennu mewn deddfwriaeth. Gwnes i hefyd  asesu a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi’r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei asesiad.

Nid yw’r gwaith yr wyf wedi’i gyflawni er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 y Mesur yn waith y mae modd dibynnu’n gyfan gwbl arno i nodi pob gwendid neu bob cyfle i wella



**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Jane Bryant – Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol

Carwyn Rees – Rheolwr Archwilio